# Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU

## Cylch gorchwyl

Cyhoeddwyd 19 Rhagfyr 2023

# Cylch gorchwyl

1.1 Mae cyfryngau lleol yn chwarae rhan bwysig ym mywydau defnyddwyr a dinasyddion ledled y DU. Mae'n rhoi newyddion a gwybodaeth i gynulleidfaoedd am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd lleol, yn helpu i feithrin cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltiad ymysg cymunedau ac yn cefnogi democratiaeth leol. Fodd bynnag, wrth i fwy o bobl droi ar-lein i gael newyddion a gwybodaeth leol, mae darparwyr cyfryngau lleol, gan gynnwys y BBC, yn gorfod addasu eu cynigion lleol y tu hwnt i brint a darlledu traddodiadol.

1.2 Rhan o rôl Ofcom yn rheoleiddio'r BBC yw goruchwylio perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol. Wrth gyflawni'r rôl hon, rhaid i ni ddefnyddio ein prif ddyletswyddau i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, yn ogystal â chyfres ehangach o ddyletswyddau i gynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol a sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau darlledu o ansawdd uchel ar gael. Mae gennym ddyletswydd hefyd i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â dyletswyddau sy'n ymwneud â theledu lleol, radio masnachol lleol a gwasanaethau radio cymunedol. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn edrych ar ddarpariaeth, rôl a gwerth cyfryngau lleol yn y DU.[1]

1.3 Rydym yn comisiynu ymchwil i adeiladu ar ein dealltwriaeth bresennol o'r hyn y mae cynulleidfaoedd ei angen ac yn ei werthfawrogi gan wasanaethau lleol.[2] Bydd ein gwaith hefyd yn edrych ar ddarpariaeth cyfryngau lleol bresennol, a sut mae'n esblygu wrth i gynulleidfaoedd ddefnyddio mwy o wybodaeth ar-lein, yn ogystal â'r gwerth mae cyfryngau lleol yn ei ddarparu i ddefnyddwyr ac i'r gymdeithas ehangach.

1.4 Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ein penderfyniadau rheoleiddio mewn ynglŷn â newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud i'w wasanaethau lleol, asesiadau cystadleuaeth ynghylch gwasanaethau newyddion a gwybodaeth lleol a, lle bo hynny'n briodol, o ran teledu lleol, radio masnachol lleol a gwasanaethau radio cymunedol.

1.5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cefndir o ran pam ein bod yn edrych ar gyfryngau lleol, gan gynnwys y rôl bwysig y gall ei chwarae i bobl ledled y DU a sut mae darparwyr cyfryngau lleol yn addasu i newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn nodi ein cynlluniau ar gyfer yr adolygiad yn fanylach, gan gynnwys ar gyfer ein hymchwil ymysg defnyddwyr a'n cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â'n cyhoeddiadau yn y dyfodol.

## Pwysigrwydd cyfryngau lleol


1.6 Mae newyddion a gwybodaeth leol yn bwysig i bobl yn y DU. Dywed hanner yr oedolion fod gwybod beth sy'n digwydd yn eu hardal leol yn rheswm iddynt ddilyn newyddion.[3] Canfu ymchwil ragarweiniol a gomisiynwyd gennym yn gynharach eleni bod 92% o oedolion yn defnyddio newyddion neu wybodaeth leol, gan gynnwys y tywydd a thraffig.

[1] Adran 3 Deddf Cyfathrebiadau 2003.
[2] Fel y nodir yn ein datganiad ar foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC (gweler paragraff 4.35).
[3] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023; roedd 50% o'r ymatebwyr wedi nodi 'er mwyn gwybod beth sy'n digwydd yn fy ardal leol' fel rheswm pam eu bod yn dilyn y newyddion.

1.7 Mae mwy o fynediad at y rhyngrwyd ac argaeledd gwasanaethau ar-lein newydd wedi ei gwneud hi'n haws cael gafael ar y newyddion a'r wybodaeth leol ddiweddaraf ac mae hefyd wedi ehangu'r dewis o wasanaethau lleol i gynulleidfaoedd. Yn 2008, dim ond dwy ran o dair o oedolion oedd â mynediad i'r rhyngrwyd gartref, gan ddisgyn i 37% o'r rhai 65 oed a hŷn.[4] O'r rheini sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, dywedodd tua chwarter eu bod yn ei ddefnyddio ar gyfer newyddion (tebyg ar draws grwpiau oedran). Yn 2023, mae gan 92% o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd erbyn hyn[5] ac mae 68% o oedolion yn cael gafael ar newyddion ar-lein.[6] Dangosodd ein hymchwil yn gynharach eleni mai'r ffordd fwyaf cyffredin o gael gafael ar newyddion lleol oedd ar-lein (89%), gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwefannau darlledwyr a phapurau newydd, ac yna teledu (53%), radio (34%) a phapurau newydd print (22%). Ar gyfartaledd, roedd pobl yn defnyddio tua dwy ffynhonnell wahanol ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol.[7] Mae hyn yn amrywio yn ôl math o newyddion a gwybodaeth leol gyda llai o ffynonellau'n cael eu defnyddio ar gyfer y rhai mwyaf cyffredin fel y tywydd (cyfartaledd o 1.3 ffynhonnell) a thraffig a theithio (1.5 ffynhonnell) ac amrywiaeth ehangach ar gyfer y mathau llai poblogaidd o wybodaeth leol fel rhaglenni dogfen am ardal leol (2.3 ffynhonnell) neu ymgyrchoedd lleol (2.5 ffynhonnell).

1.8 Roedd ein hymchwil hefyd yn dangos bod yn well gan bobl lwyfannau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o newyddion lleol. Mae teledu a radio fel arfer yn cael eu defnyddio i gael newyddion am ardaloedd daearyddol ehangach, fel newyddion am 'yr wlad neu'r rhanbarth' neu'r 'sir'.[8] Mae papurau newydd lleol (print ac ar-lein) a chyfryngau cymdeithasol fel arfer yn cael eu defnyddio i gael newyddion am ardaloedd daearyddol llai fel yr 'ardal, y dref neu'r ddinas'. Mae apiau negeseuon hyperleol yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin i gael newyddion lleol am gymdogaeth neu stryd pobl.

**Ffigur 1: Llwyfannau a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o newyddion lleol**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Newyddion Lleol 2023. Q2b. Pa rai o'r mathau hyn o newyddion a gwybodaeth leol ydych chi'n eu cael o'r llwyfannau rydych chi'n eu defnyddio? Sylfaen: Pob ymatebydd (2778).*

[4] Ofcom, Awst 2008. Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau .
[5] Traciwr Technoleg Ofcom 2023.
[6] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023.
[7] Arolwg Ofcom ar Newyddion Lleol 2023. Roedd hyn yn cynnwys 2,660 o ymatebwyr ar-lein, a 118 ychwanegol dros y ffôn. Sylwer: mae nifer y ffynonellau yn debygol o fod yn uwch gan y gallai nifer o wahanol ffynonellau penodol gael eu cynnwys mewn categori a ddewisir gan gyfranogwyr fel 'Grwpiau neu gyfrifon lleol ar gyfryngau cymdeithasol'.
[8] Arolwg Ofcom ar Newyddion Lleol 2023.

1.9 Yn ogystal â'i bwysigrwydd i unigolion, mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod gan newyddion lleol o safon fanteision i gymdeithas. Er enghraifft, dangosodd astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2020 fod cysylltiad cadarnhaol rhwng cylchrediad papurau newydd lleol a'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol, gan gefnogi'r broses ddemocrataidd.[9] Daeth astudiaeth arall i'r casgliad, pan fydd cymunedau'n colli darpariaeth leol benodol, y gall ei absenoldeb greu gwactod gwybodaeth.[10] Mewn rhai achosion, mae'r bylchau hyn yn cael eu llenwi gan y cynnydd mewn grwpiau cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu creu gan y gymuned ar lwyfannau fel Nextdoor, Facebook a WhatsApp, sy'n gweithredu fel ffynonellau gwybodaeth leol wedi'u dadgyfuno.

## Mae darparwyr cyfryngau lleol yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran digideiddio

1.10 Mae'r cynnydd yn y defnydd o gyfryngau ar-lein wedi rhoi pwysau ar lwyfannau mwy traddodiadol, gan gynnwys y rheini sy'n cynnig newyddion a gwybodaeth leol, i deilwra sut maen nhw'n darparu mynediad at eu gwasanaethau. Nid yw'r heriau hyn yn newydd ac mae darparwyr cyfryngau lleol wedi gorfod ad-drefnu eu cynnyrch a'u modelau busnes ar gyfer yr oes ddigidol.

### Bwletinau newyddion rhanbarthol a sianeli teledu lleol

1.11 Mae bwletinau newyddion teledu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn dal i gyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol, er bod y rhain, ynghyd â'r defnydd o deledu yn ehangach, wedi gweld gostyngiadau. Yn 2022, roedd 44% o oedolion y DU ar gyfartaledd yn gwylio bwletinau newyddion ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar sianeli'r BBC neu ITV bob wythnos; roedd 35% yn gwylio'r bwletinau hyn ar y BBC a 22% yn gwylio bwletin cyfatebol ar ITV1. Roedd y rhain yn is nag yn 2019 pan oedd 39% yn gwylio'r bwletinau perthnasol ar BBC One a 26% yn eu gwylio ar ITV1.[11]

1.12 Er eu bod ar gael ar Freeview a slotiau amserlen rhaglenni electronig (EPG) amlwg, mae sianeli teledu lleol wedi cael trafferth cael cyrhaeddiad a chyfran gwylio ers iddynt gael eu lansio. Amcangyfrifodd adroddiad gan Enders Analysis yn 2018 fod teledu lleol wedi cyrraedd llai nag 1 miliwn o gartrefi bob wythnos (gyda London Live yn cyfrif am dros hanner).

### Radio lleol

1.13 Mae data diweddaraf y diwydiant yn dangos bod 53% o oedolion yn y DU wedi gwrando ar unrhyw radio lleol bob wythnos yn Ch3 2023, er bod gwahaniaethau yn ôl sector o ran maint cynulleidfaoedd: Roedd 13% o oedolion yn gwrando ar radio'r BBC ar gyfer y gwledydd a rhanbarthau Lloegr, a radio masnachol lleol wedi cyrraedd 49%. [12] Er bod cynulleidfaoedd radio lleol yn gyffredinol wedi bod yn gymharol sefydlog, mae gorsafoedd y BBC wedi gweld

---

[9] Plum Consulting, Mai 2020. Research into recent dynamics of the press sector in the UK and globally, t.7.
[10] David Ardia, Evan Ringel, Victoria Ekstrand ac Ashley Fox, 22 Rhagfyr 2020. Addressing the Decline of Local News, Rise of Platforms, and Spread of Mis- and Disinformation Online: A Summary of Current Research and Policy Proposals t.19.
[11] Barb, oedolion 16 oed a hŷn, pob darllediad, 28 diwrnod wedi'i gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau.
[12] RAJAR Ch3 2023.

gostyngiadau tra bod radio masnachol lleol wedi gweld cynnydd yn ddiweddar. Fodd bynnag, gall fod gwahaniaethau yn faint o gynnwys a rhaglenni lleol sy'n cael eu darparu gan orsafoedd radio a masnachol y BBC. Mae gorsafoedd radio'r BBC ar gyfer y gwledydd a rhanbarthau Lloegr fel arfer yn darparu cyfran uwch o newyddion lleol a chynnwys llafar lleol arall (sy'n ofynnol o dan Drwydded Weithredu'r BBC) na gorsafoedd radio lleol masnachol. Hefyd, mae dros 200 o orsafoedd radio cymunedol yn darlledu i ardaloedd lleol bach ledled y DU.

## Darparwyr newyddion ar-lein a phrint lleol a rhanbarthol

1.14 Mae darparwyr print fel papurau newydd a chylchgronau lleol wedi gweld yr effaith fwyaf o ganlyniad i newidiadau yn y dirwedd cyfryngau lleol – ers 2005, mae o leiaf 271 o deitlau papurau newydd lleol print wedi cael eu colli'n net.[13] Mae adroddiad diweddar gan Enders Analysis yn dangos bod cylchrediad teitlau wythnosol rhanbarthol, dros y pum mlynedd diwethaf, wedi gostwng 19% y flwyddyn a bod cylchrediad y papurau newydd dyddiol rhanbarthol wedi gostwng 15% y flwyddyn. Roedd Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom yn awgrymu bod pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r duedd bresennol o ddirywiad, gyda chyrhaeddiad papurau newydd yn gyffredinol yn gostwng o 47% yn 2020 i 38% yn 2022. Gostyngodd cyrhaeddiad papurau newydd lleol a rhanbarthol hefyd yn ystod y cyfnod hwn, er bod cyrhaeddiad y ddau wedi sefydlogi rhwng 2022 a 2023. Yn arolwg newyddion lleol Ofcom yn 2023, dywedodd 22% o oedolion eu bod yn defnyddio papurau newydd lleol i gael newyddion a gwybodaeth leol.

1.15 Er gwaethaf y gostyngiad mewn cylchrediad papurau newydd lleol, mae brandiau newyddion lleol yn dal i gyrraedd mwyafrif sylweddol o oedolion drwy eu presenoldeb ar-lein. Yn 2023, roedd 78% o oedolion ar-lein 15 oed a hŷn wedi ymweld â theitlau rhanbarthol Reach plc, roedd 33% wedi ymweld â theitlau'r National World ac roedd 28% wedi ymweld â theitlau Newsquest.[14] Fodd bynnag, nid oedd y gostyngiad mewn gwariant hysbysebu mewn print yn cael ei wrthbwyso gan dwf mewn gwariant hysbysebu digidol ar wefannau ac apiau cyhoeddwyr newyddion (er bod gwariant hysbysebu digidol rhanbarthol / lleol yn gyffredinol wedi disodli gwariant hysbysebu mewn print yn 2022).[15] Er enghraifft, roedd gwariant hysbysebu ar bapurau newydd lleol / rhanbarthol wedi gostwng 64% rhwng 2012 a 2022. Mae'n ymddangos bod rhai cyhoeddwyr newyddion lleol hefyd yn arallgyfeirio eu strategaethau busnes i feithrin ffrydiau refeniw lluosog, gan gynnwys arbrofi â thanysgrifiadau ar-lein a chynigion cynnyrch atodol eraill fel podlediadau a chylchlythyrau.[16]

1.16 Mae'n debygol bod y gostyngiad mewn refeniw hysbysebu traddodiadol wedi cyfrannu at resymoli gweithrediadau gan gyhoeddwyr cyfryngau lleol yn ogystal â chyfuno yn y farchnad. Er enghraifft, prynodd National World JPI Media (a elwid gynt yn Wasg Johnston) am £10m ym mis Ionawr 2021, The Rotherham Advertiser ym mis Mai 2023 a Midland News Association, (a oedd yn un o gyhoeddwyr newyddion rhanbarthol annibynnol mwyaf y DU)

[13] Press Gazette, 26 Gorffennaf 2022. Cau papurau newydd lleol yn y DU: Lansio cynnwys digidol a phrint yn cydbwyso'r dirywiad.

[14] Ipsos Iris, cyrhaeddiad cynulleidfa 15+ ar-lein. Nid yw'r cyrhaeddiad yn cynnwys papurau newydd cenedlaethol (Express, Star) ond mae'n cynnwys, er enghraifft, y Liverpool Echo a'r Daily Record. Nid yw Newsquest yn cynnwys New European, Exchange a Mart ond mae'n cynnwys, er enghraifft, y Northern Echo a Gwasg Efrog. Mae'r National World yn cynnwys holl deitlau'r National World (a oedd yn rhan o JPI Media) ac mae'n cynnwys, er enghraifft, y Lancashire Post a'r Glasgow World.

[15] Dadansoddiad Ofcom o ddata adroddiad Gwariant AA/WARC.

[16] Sefydliad Reuters, 24 Medi 2020. Publish less, but publish better: pivoting to paid local news.

am £11m ym mis Medi 2023.[17] Ym mis Mawrth 2022 prynodd Newsquest Archant, gan ychwanegu 50 o deitlau wythnosol eraill a phedwar teitl dyddiol yn ogystal â chylchgronau rhanbarthol, at ei bortffolio presennol o dros 250 o frandiau newyddion lleol.

**Cyd-destun rhyngwladol**

Nid yw'r heriau hyn yn unigryw i'r DU. Er enghraifft, yn 2023, amcangyfrifwyd bod UDA wedi colli bron i draean o bapurau newydd lleol (2,886 papur newydd) ers 2005,[18] ac amcangyfrifir nad oes gan 1,800 o gymunedau bapur lleol o gwbl.[19] Bu gwahanol ddulliau o geisio goresgyn yr heriau a wynebir gan y sector newyddion lleol, gan gynnwys cyllid dyngarol, newid dosbarthiad, ychwanegu ffrydiau refeniw newydd a chyflwyno modelau busnes newydd. Mae rhai llywodraethau hefyd wedi deddfu neu wedi cynnig mecanweithiau ar gyfer cymorth gwladol i'w sectorau newyddion lleol, gan gynnwys Norwy, Denmarc, Gwlad yr Iâ, Sweden, yr Almaen, Seland Newydd a Chanada. Mae prosiect diweddar a ariannwyd gan yr UE, sef Local Media for Democracy – hefyd yn ceisio ymchwilio i dirwedd y cyfryngau lleol a'i adfywio mewn ardaloedd sy'n cael eu galw'n "anialdiroedd newyddion".

# Gweddnewid gwasanaethau lleol y BBC

1.17 Fel rhan o'i gynlluniau i ddod yn sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf, mae'r BBC yn moderneiddio ei wasanaethau lleol drwy leihau gwariant ar ei wasanaethau darlledu lleol ac ailfuddsoddi hyn mewn cynnwys ar-lein. Roedd gyn yn cynnwys cau'r rhaglenni newyddion teledu lleol yn Rhydychen a Chaergrawnt ym mis Rhagfyr 2022. Ar ben hynny, mae'r BBC yn cynyddu faint o raglenni sy'n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr (gan ddiogelu'r rhaglenni y gwrandewir fwyaf arnynt, bwletinau newyddion lleol a chynnwys chwaraeon lleol)[20] ac yn defnyddio arbedion i fuddsoddi mewn allbwn newyddion ar-lein lleol a'i gynyddu ar draws gwefan ac ap BBC News.[21] Dechreuodd y BBC gyflwyno newidiadau i radio lleol fesul cam o fis Medi 2023 ymlaen, ac mae'n disgwyl cwblhau hyn ym mis Ionawr 2024. Mae'r newidiadau i newyddion lleol ar-lein wedi bod yn dilyn wrth i'r newidiadau i bob ardal radio lleol gael eu cyflwyno ac wrth i adnoddau gael eu symud o radio i ar-lein. Fel rhan o hyn, mae'r BBC wedi lansio allbwn newyddion lleol ar-lein newydd yn Peterborough a Wolverhampton, gyda Bradford a Sunderland i ddilyn. Yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ar y BBC, fe wnaethom ddweud y byddwn yn monitro effaith y newidiadau i wasanaethau lleol y BBC i sicrhau ei fod, wrth ganolbwyntio ar ei wasanaethau ar-lein lleol, yn dal i ddarparu cynnwys lleol pwysig i gynulleidfaoedd sy'n dibynnu ar ei wasanaethau darlledu.

1.18 Mae'r BBC hefyd wrthi'n creu 11 o dimau adrodd ymchwiliol ledled Lloegr gyda'r nod o ddarparu mwy o ddadansoddiad o faterion lleol ar draws teledu, radio ac ar-lein ac mae'n

[17] Ar gyfer y rhaglenni cyfun a brynir gan Midland News Association a Press Computer Systems.
[18] Local News Initiative, 16 Tachwedd 2023. The State of Local News: The 2023 Report.
[19] Rebuild Local News. The Crisis: Research on Local News.
[20] Mae BBC Local Radio yn rhwydwaith o 39 o orsafoedd radio sydd gyda'i gilydd yn gwasanaethu Lloegr, Jersey a Guernsey.
[21] BBC, 31 Hydref 2022. Mae'r BBC yn nodi cynlluniau i drawsnewid ei wasanaethau lleol er mwyn darparu mwy o werth i gymunedau ledled Lloegr a'r BBC, 18 Ionawr 2023. Mae'r BBC yn symud ymlaen gyda chynlluniau i foderneiddio gwasanaethau lleol.

bwriadu creu cronfa newydd i gomisiynu rhaglenni a phodlediadau lleol gwreiddiol ar gyfer BBC Sounds.

1.19 Y llynedd, fe wnaethom gynnal adolygiad o asesiad perthnasedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth newyddion ar-lein lleol yn Lloegr. Ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny, roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd y newid yn un a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac felly nad oedd yn newid sylweddol. Fe wnaethom ddweud y byddem yn monitro cynnydd ac yn casglu gwybodaeth gan y BBC a gweithredwyr masnachol i ystyried gwir effaith cynigion y BBC ar gynulleidfaoedd. Byddwn yn mynd â'r gwaith hwn rhagddo fel rhan o'r prosiect hwn.

## Gwaith arall cysylltiedig

1.20 Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gwneud nifer o newidiadau i'r fframweithiau rheoleiddio ar draws nifer o'r sectorau cyfryngau lleol. Bydd y Bil Cyfryngau yn cyflwyno diwygiadau eang i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a radio masnachol. Ar wahân, mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried adnewyddu trwyddedau mewn teledu lleol ar ôl 2025, ac rydym yn disgwyl iddo ddeddfu ar gyfer hyn yn 2024, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith o adnewyddu trwyddedau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hefyd yn ystyried newidiadau i'r fframwaith radio cymunedol.

1.21 Rydym hefyd yn cynnal rhaglen waith ar ddyfodol plwraliaeth y cyfryngau gan gynnwys ystyried a oes angen newidiadau i'r fframwaith. Yn dilyn ein dogfen drafod, rydym yn ystyried y camau nesaf.

## Cwmpas ein hadolygiad

### Ymchwil defnyddwyr

1.22 Gan adeiladu ar yr ymchwil a gynhaliwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn, yn ogystal â data presennol o ymchwil flaenorol, tracwyr parhaus a data'r diwydiant, rydym wedi comisiynu rhagor o ymchwil sylfaenol. Ein nod yw archwilio cymhellion cynulleidfaoedd, deall y broses o wneud penderfyniadau y tu ôl i ddewis darparwyr cyfryngau lleol, a chael gwell dealltwriaeth o feysydd gan gynnwys gwerth cymdeithasol a'r hyn sy'n gwneud rhywbeth 'deimlo' yn lleol. Bydd ein hymchwil defnyddwyr yn cael ei chynnal yng ngwanwyn 2024.

1.23 Mae pum maes craidd y bwriadwn roi sylw iddynt drwy'r ymchwil:

a) **Agweddau a chanfyddiadau** – deall disgwyliadau cynulleidfaoedd o gyfryngau lleol a pha mor dda mae'r rhain yn cael eu bodloni yn ogystal ag effaith newidiadau i'r sectorau;
b) **Ymddiriedaeth** – deall beth sy'n gwneud darparwyr yn ddibynadwy, sut mae canfyddiadau'n gwahaniaethu rhwng darparwyr a sut mae ymddiriedaeth yn effeithio ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd;
c) **Cynrychioli a phortreadu** – deall beth sy'n gwneud rhywbeth 'deimlo' yn lleol a pha mor bwysig ydyw i gynulleidfaoedd bod cynnwys yn cael ei ganfod a'i ddarlledu o'r ardal leol, yn ogystal â'r graddau y mae cynulleidfaoedd yn credu eu bod yn cael eu cynrychioli a'u portreadu'n ddilys;

d) **Dewisiadau newyddion lleol a chyfnewid rhwng darparwyr (gan ganolbwyntio ar newyddion)** – deall sut mae pobl yn canfod ac yn cael gafael ar newyddion lleol, pam maen nhw'n defnyddio'r llwybrau maen nhw'n eu defnyddio, a'r rhesymau dros ddewisiadau rhwng y BBC a ffynonellau ar-lein masnachol a'r graddau maen nhw'n cael eu cyfnewid; a
e) **Cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltu lleol** – deall sut mae cyfryngau lleol yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned a pherthyn ac i ba raddau mae'n arwain at fwy o ymgysylltu â'r gymuned leol.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

1.24 Rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf wrth i ni barhau i feithrin dealltwriaeth o'r dirwedd cyfryngau lleol yn y DU, gan gynnwys tystiolaeth o effaith y BBC ar newyddion lleol. Yn benodol, rydym yn bwriadu casglu barn ar y meysydd canlynol:

a) **Yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector cyfryngau lleol** – cipolwg ar yr heriau a'r cyfleoedd diweddar, presennol a disgwyliedig sy'n wynebu darparwyr cyfryngau lleol, gan gynnwys y goblygiadau i fodelau busnes darparwyr, a sut mae darparwyr wedi ymateb;
b) **Agweddau cynulleidfaoedd** – i ategu ein hymchwil cynulleidfa, cipolwg ar y math o gynnwys lleol mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi a'i ddefnyddio, gan gynnwys unrhyw amrywiadau demograffig neu ranbarthol, a sut gallai hyn amrywio yn ôl math o gyfryngau (er enghraifft, papur newydd o'i gymharu â radio);
c) **Effaith y BBC ar newyddion lleol** – cipolwg ar effaith y BBC ar draws gwahanol sectorau cyfryngau lleol a thystiolaeth ohoni, yn ogystal ag ar 'amrywiaeth' darpariaeth y BBC ac unrhyw bryderon neu ddisgwyliadau yn y dyfodol yn seiliedig ar gynlluniau cyhoeddedig y BBC;
d) **Ymddygiad defnyddio** – cipolwg ar sut a ble mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys cyfryngau lleol ac yn ei ddefnyddio, gan gynnwys sut mae hyn wedi newid dros amser ac unrhyw wahaniaethau a welwyd yn rhanbarthol neu'n ddemograffig; a
e) **Rôl y cyfryngau lleol** – safbwyntiau ar y gwerth y mae cyfryngau lleol yn ei ddarparu i unigolion, cymdeithas yn gyffredinol a'r economi ehangach, sut mae hyn wedi newid dros amser ac a yw hyn yn amrywio yn ôl llwyfan, yn ogystal ag i ba raddau mae newidiadau i dirwedd y cyfryngau wedi effeithio ar rôl cyfryngau lleol.

1.25 Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, rydym hefyd yn bwriadu siarad ag academyddion i gael cipolwg o'r ymchwil a wnaed i'r sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Y camau nesaf

1.26 Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad cychwynnol ym mis Mai 2024 yn nodi ein canfyddiadau cychwynnol o'n hymchwil ymysg defnyddwyr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn trafod y gwaith ychwanegol rydym yn ei wneud. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2024. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio adroddiadau blynyddol dilynol ar y BBC i ddiweddaru ein safbwyntiau ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol, yn ogystal â'r sectorau sain a chlyweledol.